**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**GORCHYMYN TRAFFIG 2024 (TERFYN CYFLYMDER 40MYA) (Y PÎL A48)**

Mae **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** ("y Cyngor"), wrth ddefnyddio'u grymoedd dan adran 84 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a holl bwerau galluogi eraill ac mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 y Ddeddf drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r Gorchymyn i rym ar 12/9/2024 a gellir cyfeirio ato fel “GORCHYMYN TRAFFIG CYNGOR BWRDEISTREF PEN-Y-BONT AR OGWR 2024 (A48 Y Pîl)(TERFYN CYFLYMDER 40MYA)”.

2. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr, ac eithrio cerbydau sydd wedi'u heithrio, ar hyd y ffyrdd ac ochrau'r ffyrdd sy'n cael eu cynnwys yn atodlen y Gorchymyn hwn.

3. Nid yw'r gwaharddiad a gyflwynir yn y Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol i gerbyd sydd wedi'i eithrio.

4. yn y Gorchymyn hwn mae "cerbyd sydd wedi'i eithrio" yn golygu:

   (a) unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys at ddibenion a nodir yn adran 87 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;

   (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu, ac sy'n cael ei yrru gan berson ar y pryd yn amodol â gorchymyn aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

   (i) mewn ymateb, neu mewn ymarfer i ymateb, i argyfwng diogelwch cenedlaethol gan berson sydd wedi'i hyfforddi i yrru ar gyflymder uchel: neu

   (ii) at ddibenion hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymder uchel.

   Mae "lluoedd arbennig" yn golygu'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae cynnal eu galluoedd yn gyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig neu sydd ar y pryd yn amodol i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

5. Cyn belled â bod unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth a gynhwysir mewn unrhyw Orchymyn a roddir neu'n cael effaith fel ei fod wedi ei wneud dan y Ddeddf bresennol ar yr amser pan ddaw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau ar hyd y ffyrdd a gynhwysir yn Atodlen y Gorchymyn hwn, darpariaeth y Gorchymyn hwn fydd yn blaenoriaethu.

6. Bydd y gwaharddiad neu'r gofyniad a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliad a

wnaed neu sy'n cael effaith fel ei fod wedi ei wneud dan y Ddeddf neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall ac nid yn rhan-ddirymiad ohonynt.

**ATODLEN (TERFYN CYFLYMDER 40MYA)**
**Y PÎL A48**

(i) O bwynt sy'n unol â ffin y fwrdeistref sirol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, i'r de am bellter oddeutu 70 medr (77 llath).

Dyddiedig y dydd o 2024

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** )

yma ym mhresenoldeb:- )

Llofnodwr Awdurdodedig:

TRA001-1448 O